



**Mae fersiwn Saesneg o Amser Gofal ar gael. An English version of Caring Times is available.**

## Meddygfa Teulu yn y Bont-faen yn Cyflawni Achrediad Arian

I lawer o ofalwyr, y lle cyntaf y maen nhw'n mynd am gymorth a chefnogaeth yw'r Practis Meddyg Teulu (MT) lleol. Fel arfer, bydd Meddygfeydd Teulu yn dod i adnabod gofalwyr ymhell cyn bod angen ymyrraeth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol. Ym mhob Meddygfa Teulu mae cofrestr gofalwyr ac yn y rhan fwyaf ohonynt ceir man cyswllt penodol, sef Hyrwyddwr Gofalwyr.

Mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo gyda Phencampwyr Gofalwyr Practis MT er mwyn rhoi gwybodaeth berthnasol a diweddar i staff a chleifion am ofalu ac i ofalwyr. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Cyngor Dinas Caerdydd a Chyngor Bro Morgannwg wedi datblygu Cynllun Achredu Gofalwyr MT. Mae gan y cynllun ystod o feini prawf y bydd angen i'r Practis MT eu cyflawni er mwyn cael cydnabyddiaeth am gefnogi gofalwyr a'u teuluoedd.

Mae'r Cynllun Achredu Gofalwyr MT wedi bod 'yn fyw' ers mis Tachwedd 2015, ac mae'r Practisau hynny sydd wedi cymryd rhan wedi cael eu hasesu, a bydd y rheiny sy'n gallu profi eu bod nhw'n bodloni'r meini prawf yn derbyn tystysgrif lefel Efydd. Bu'r lefel Arian ar gael ers dechrau 2018. Bydd y tystysgrifau lefel Efydd ac Arian yn para am ddwy flynedd.

Ar 1 Tachwedd, Meddygfa Teulu Gorllewin y Fro yn y Bont-faen oedd y Feddygfa Teulu gyntaf yn y Fro i dderbyn Achrediad Meddygon Teulu Gofalwyr Arian.

Mae Renae Crockford yn Hyrwyddwr Gofalwyr yng Nghanolfan Iechyd y Bont-faen, ac yn rhan o Bractis Teuluol Gorllewin y Fro.



*Renae Crockford yn cael Achrediad Arian gan Lance Carver, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Bro Morgannwg*

Dywedodd: "Bues i'n Hyrwyddwr y Gofalwyr er dwy flynedd ac rwy'n rhan o'r tîm nyrsio. Rwy'n angerddol am helpu pobl gymaint â phosibl. Mae llawer o'r gwaith rwy'n ei wneud yn cynnwys cyfeirio cymdeithasol at yr help rydym yn ei gynnig, gan fod pobl yn teimlo nad oes unrhyw un ganddynt i fynd ato.

"Mae gennym lawer o gefnogaeth ar gael yn y Fro ac roedd fy swydd i'n cynnwys cysylltu cleifion â'u gofalwyr â'r gwasanaethau hyn. Mae gennym wefan bwrsasol o wybodaeth i ofalwyr (<http://cowbridgedoctors.com/carers/>).

"Roeddem eisoes wedi derbyn achrediad ar lefel Efydd, ond pan gymerais i'r awenau fel Hyrwyddwr Gofalwyr, roedd yn glir bod ein Practis Meddyg Teulu yn bodloni'r meini prawf ar gyfer achrediad lefel Arian ac rwy'n falch o ddweud mai ni yw'r rhai cyntaf i ennill y dyfarniad hwn yn y Fro.

Gwnaethom ddathlu Wythnos y Gofalwyr 2018, a daeth tua 200 o bobl i ymweld â stondinau gwybodaeth a siarad â darparwyr yn ystod digwyddiad a gynhalion yn ein derbynfa. Roedd yn amlwg bod gofalwyr eisiau dysgu rhagor ac roedd yn ddigwyddiad hynod lwyddiannus. Mae gennym gynlluniau cyffrous i'r gofalwyr (gan gynnwys gofalwyr ifanc) yn 2019!"

Os ydych chi'n Bractis meddygfa teulu sy'n dymuno cael ei hystyried ar gyfer Achrediad Lefelau Efydd neu Arian, cysylltwch â James Livingstone, Swyddog Datblygu Gofalwyr, ar **01446 704604** neu e-bostiwch:

[CarersServices@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:CarersServices@valeofglamorgan.gov.uk)

## Project 'Amser i Mi' yr YMCA ym Mro Morgannwg

Yn ystod haf 2018, cyflogodd y grŵp YMCA Caerdydd a Casnewydd Weithiwr Sgiliau Bywyd newydd yn y Fro. Bydd y swydd hon yn darparu sesiynau adeiladu sgiliau i'r gofalwyr ifanc ar y Project 'Amser i Mi'. Mae'r gweithiwr newydd, Bethany Riley, yn adeiladu perthnasoedd gyda'r gofalwyr ifanc a'u teuluoedd, ac yn adeiladu partneriaethau gyda sefydliadau.

Bu Bethany'n gweithio'n galed yn cynllunio ac yn darparu sesiynau i wella sgiliau bywyd, trwy hwyluso gweithdai ynghylch gwahanol faterion megis senedd yr ieuencid, cymorth cyntaf, coginio, perthnasoedd iach ac iechyd meddwl. Mae gweithgareddau'n cael eu cynnal yn y clwb ieuencid yn YMCA y Barri bob nos Fercher 6.30pm – 8.30pm.

Ar hyn o bryd rydym yn gweithio mewn partneriaeth â Youth Cymru ar broject Unigrwydd, yn edrych ar ffyrdd o leihau unigedd mewn pobl ifanc. Mae'r gofalwyr ifanc yn rhoi eu barn ar sut y byddent yn atal unigedd, sy'n broblem bosibl i ofalwyr ifanc.

Er mwyn paratoi at Ddiwrnod Ymwybyddiaeth Gofalwyr Ifanc ar 31 Ionawr 2019, byddwn yn cefnogi gofalwyr ifanc i siarad â'u hysgolion am sut beth yw bod yn ofalwr ifanc a pha rwystrau maent yn eu hwynebu. Hefyd mae gennym adnoddau a gaiff eu rhoi i'r gofalwyr ifanc rydym yn gweithio gyda nhw. Gellir defnyddio'r adnoddau hyn yn yr ysgol i wella perthnasoedd ac yn y cartref i wella eu hiechyd meddwl a'u lles. Bydd rhagor o wybodaeth ar gael ar ein gwefan - [www.ymcacardiff.wales](http://www.ymcacardiff.wales)

Os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth mae croeso i chi gysylltu ag unrhyw un o'r tîm ar **02920 465250** / [valeyounccarers@ymcacardiff.wales](mailto:valeyounccarers@ymcacardiff.wales)



## Dalennau Ffeithiau i gymryd Lle Llawlyfr y Gofalwyr

Bu Llawlyfr Gofalwyr Caerdydd a'r Fro yn ffynhonnell gwybodaeth amhrisiadwy ers nifer o flynyddoedd ond yn ddiweddar cafodd ei ddisodli gan nifer o ddalennau ffeithiau i ofalwyr. Mae'r tair ar ddeg o ddalennau ffeithiau yn ymwneud â llawer o agweddau ar y rôl gofalu, ac fel dogfennau

ar wahân, gellir eu diweddarau'n fwy aml na llawlyfr. Gellir gweld/lawrlwytho'r Dalennau Ffeithiau drwy'r dudalen ganlynol ar y we:

[www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/social\\_care/Key%20Documents/Public-Information/leaflets.aspx](http://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/social_care/Key%20Documents/Public-Information/leaflets.aspx)

## Gwella cymorth i Ofalwyr Ifanc

Bu Ymddiriedolwyr Gofalwyr De-ddwyrain Cymru (CTSEW) yn gweithio gyda nifer o Ysgolion Uwchradd ledled Bro Morgannwg ers mis Tachwedd 2016, wedi'u hariannu mewn partneriaeth â Chynghorau Bro Morgannwg a Chaerdydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i gyflwyno'r Rhaglen Gofalwyr Ifanc mewn Ysgolion.

Nod y rhaglen yw cefnogi datblygiad ysgolion i wella, 'Deall, Hysbysu, Nodi, Gwranddo a Chefnogi' gofalwyr ifanc. Mae'r rhain yn ffurfio 5 thema'r Rhaglen. Mae 3 cham i'r Rhaglen Gofalwyr Ifanc mewn Ysgolion, sef, 'Pethau Sylfaenol, y Tu Hwnt i'r Pethau Sylfaenol ac

Arfer Gorau'. Cefnogir ysgolion gan Reolwr y Gofalwyr Ifanc a'r Gweithiwr Datblygu Ysgolion yn Ymddiriedolaeth Gofalwyr De Ddwyrain Cymru i annog ymrwymiad gan yr ysgol gyfan wrth weithio i gefnogi gofalwyr ifanc.

Gwelodd Bro Morgannwg yr Ysgol Uwchradd gyntaf yng Nghymru, sef Ysgol Gyfun y Barri yn cyflawni'r 'Pethau Sylfaenol' yn Rhaglen Gofalwyr Ifanc mewn Ysgolion.

Mae chwech allan o wyth (75%) o ysgolion yn y Fro yn gweithio i weithredu'r Rhaglen Gofalwyr Ifanc mewn Ysgolion. Mae dwy ysgol (25%) wedi dangos diddordeb yn ddiweddar ac yn cymryd cam ymlaen tuag at

weithredu. Mae tair (37.5%) ysgol eisoes wedi pasio'r 'Pethau Sylfaenol'. Caiff nodi gofalwyr ifanc ym Mro Morgannwg ei wella o ganlyniad. Mae un ysgol wedi gweld cynnydd o 1950% yn nifer y gofalwyr ifanc a nodwyd (o 2 i 41 o ofalwyr ifanc)

Os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth neu os dymunwch chi i'ch ysgol gymryd rhan, cysylltwch â CTSEW a **01495 769996**

<https://professionals.carers.org/Young-Carers-in-School-Wales>



Aelod panel adolygu cyfoedion yn cyflwyno cymhwyster 'The Basics' i Ysgol Llanilltud Fawr.

## Arfer da ym Mro Morgannwg

- Ysgolion yn dynodi e-bost i ofalwyr ifanc er mwyn sicrhau na cholli'r cyfathrebiad.
- Mae un ysgol yn cael clwb ar gyfer gofalwyr ifanc yn unig lle y gallant gael mynediad at gymorth gan gyfoedion.
- Mae tair ysgol yn y Fro wedi cymryd rhan mewn cynllun peilot o gerdyn adnabod y Gofalwyr Ifanc.
- Mae niferoedd gofalwyr ifanc a nodwyd wedi cynyddu.
- Mae gan ofalwyr ifanc fynediad at swyddog gweithredu blaen yn yr ysgol sy'n creu pwynt cyswllt unigol i staff a disgyblion ynglŷn â materion gofalwyr ifanc.



# Y Fro sy'n Deall Dementia - diweddariad



Fi yw cadeirydd newydd grŵp llywio y Barri sy'n Deall Dementia. Gan weithio gyda chefnogaeth gan Alzheimer's Cymru, mae grŵp llywio y Barri yn cynnwys cynrychiolwyr o Gyngor Tref y Barri, sefydliadau, elusennau, busnesau a gwirfoddolwyr sydd i gyd wedi ymrwymo i barhau fel y Barri sy'n Deall Dementia. Ar hyn o bryd rydym ni'n gwneud y canlynol:

Mae Hyrwyddwyr Dementia Gwirfoddol y Gymdeithas Alzheimer yn cynnal sesiynau ymwybyddiaeth dementia i unrhyw grŵp neu sefydliad sy'n dymuno 'deall dementia'. Nodau'r sesiwn yw mynd i'r afael â rhywfaint o'r ofnau a'r stigma sy'n gysylltiedig â dementia ac nad yw dementia ynglŷn â cholli eich cof yn unig. Rydym yn gweld bod sylwadau ar ôl y sesiwn yn aml yn cynnwys bod pobl yn fwy ymwybodol, eisiau cefnogi ac yn fwy hyderus i ymgysylltu'n well â phobl sy'n byw gyda dementia â'u gofalwyr. Ein nod yw i gymaint o fusnesau ayyb â phosibl gofrestru i ddeall dementia.

Yma yn y Barri, rydym yn gweithio yn galed i greu mwy o Weithgareddau a chefnogaeth i bobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr. Yn y Barri mae gennym sinema deall

dementia The Memo, cymorth dementia Cymdeithas Alzheimer yn Nhŷ Hapus, Tai Chi, Ceulys Bowlio a Rholio, Caffi Cofio, llyfrau, DVDau a CDau o lyfrgell Ganolog y Barri.

Mae llawer mwy yr hoffem ei wneud. Rydym yn gofyn i chi, y gofalwyr, pa gymorth yr hoffech chi ei weld ar waith yma yn y Barri drosoch chi eich hunain a thros y bobl sy'n byw gyda dementia. Rydym yn teimlo bod eich cyfranogiad yn bwysig i'n gweledigaeth o barhau i esblygu deall dementia.

E-bostiwch unrhyw awgrymiadau i:

[dementiafriendlyvale@outlook.com](mailto:dementiafriendlyvale@outlook.com)

Pe hoffech rhagor o wybodaeth am Weithgareddau, Cymorth, Cymunedau sy'n Deall Dementia a grwpiau llywio sy'n Deall Dementia eraill yn y Fro, ewch i'n gwefan ar:

[www.dementiafriendlyvale.co.uk](http://www.dementiafriendlyvale.co.uk)

## Jane Weldon

Cadeirydd Grŵp Llywio y Barri sy'n Deall Dementia.

## Cyngor ar Bopeth Cyngor Caerdydd a Bro Morgannwg



Mae Cyngor ar Bopeth Caerdydd a'r Fro yn darparu cyngor am ddim sy'n gyfrinachol ac yn ddiuedd i ofalwyr neu unrhyw un sydd ei angen, ni waeth am ei hil, rhyw, rhywioldeb, oedran, anabledd neu grefydd. Rydym yn darparu gwybodaeth ar ystod eang o faterion i gynnwys: dyled, tai a budd-daliadau lles. Gallwch gael mynediad at ein gwasanaethau yn 119 Broad Street, Y Barri, CF62 7TZ (Dydd Llun i ddydd Gwener 9.30am – 4.30pm; Dydd Mercher 9.30am – 6.00pm) ac yn West House, Stanwell Road, Penarth (dydd Iau 9.30am – 12.30pm). Ewch i'n gwefan i gael gwybodaeth am ein gwasanaethau allanol (yn Sain

Tathan a Llanilltud Fawr) [www.cacv.org.uk](http://www.cacv.org.uk).

Os bydd angen cyngor dros y ffôn arnoch chi: Adviceline Cymru \*03444 77 20 20  
Dydd Llun - Dydd Gwener 10.00am - 4.00pm

\*Codir 5c y funud am alwadau o linell tir ac mae'n bosibl y byddant yn costio'n sylweddol fwy o ffonau symudol a ffonau eraill. I gael help ar-lein ewch i'n gwefan [www.citizensadvice.org.uk/cymraeg/](http://www.citizensadvice.org.uk/cymraeg/) or [www.dewis.cymru/ResourceDirectory/ViewResource.aspx?id=1710](http://www.dewis.cymru/ResourceDirectory/ViewResource.aspx?id=1710)

## Pwy sy'n Gofalu am y Gofalwyr? Ni!

Mae Ffederasiwn Rhieni Caerdydd a'r Fro yn elusen leol dan reolaeth gofalwyr, ar gyfer gofalwyr. Rydyn ni'n trefnu 'cyfarfodydd cymdeithasol' mewn lleoliadau ar hyd a lled y sir mewn amrywiaeth o leoliadau lleol. Mae cyfle i gwrdd â gofalwyr eraill, cyfnewid syniadau a phrofiadau, a gwneud ffrindiau newydd dros frechwast, cinio neu de prynhawn am ddim!

Mae cwrdd â gofalwyr eraill yn ffordd wych o ddysgu pethau newydd a chael cyngor, ac mae pawb sy'n mynychu yn canu clodydd y cyfarfodydd ac yn hynod falch o gwrdd â phobl eraill sy'n deall yr anawsterau sy'n gallu bod ynghlwm wrth ofalu. Mae staff y ffederasiwn a chyfeillion o sefydliadau eraill yn galw heibio'n



aml i rannu gwybodaeth a chlywed barn er mwyn ei bwydo i'r cyfarfodydd ymgynghori a chynllunio ffurfiol rydyn ni'n eu mynychu.

Erbyn hyn, rydyn ni'n cwrdd yn wythnosol yn y Fro, diolch i gymorth gan Gyngor y Fro a phroject Cysylltu Gofalwyr, sy'n cael ei ariannu gan y Loteri Fawr. Bydd cyfarfod yn rhywle, nepell oddi wrthoch chi!

[www.parentsfed.org/news/item/meet-the-carers-come-to-a-carers-meeting-near-you](http://www.parentsfed.org/news/item/meet-the-carers-come-to-a-carers-meeting-near-you)

I gael gwybod rhagor, ewch i'n gwefan ar <https://www.parentsfed.org/> ffoniwch **02920 565917** neu e-bostiwch [Karen@parentsfed.org](mailto:Karen@parentsfed.org)

## Amser i Ofalwyr – Project y Gofalwyr Cysylltiedig

Cafodd y Project Gofalwyr Cysylltiedig ei sefydlu i helpu a chefnogi gofalwyr teulu pobl sydd â chyflwr gydol oes a/ neu un sy'n cyfyngu ar fywyd.

Mae Ffederasiwn Rhieni Caerdydd a'r Fro (sydd yn Sbectrwm yn y Tyllgoed, Caerdydd) yn trefnu cyfarfodydd cymdeithasol a gweithgareddau mewn lleoliadau ledled Caerdydd a Bro Morgannwg. Caiff y rhain eu cynnal mewn ystod o leoliadau ac maent yn rhoi cyfleoedd i ofalwyr yn y teulu gwrdd â gofalwyr teuluol eraill sy'n cael profiad o sefyllfaoedd a heriau tebyg, er mwyn rhannu profiadau a gwybodaeth mewn amgylchedd cymdeithasol cyfeillgar a chefnogol.

Mae Touch Trust (yng Nghanolfan y Mileniwm Cymru ym Mae Caerdydd) yn darparu therapi cyffwrdd a phrofiadau synhwyrdd i bobl sydd ag anableddau. Fel rhan o'r Project Gofalwyr Cysylltiedig, bydd Touch Trust yn darparu sesiynau 'Amser i Mi' pan fydd y gofalwr teuluol yn cael dewis o ystod o gyfleoedd,



e.e tylino'r pen, reiki, sesiwn ymlacio tra bod y person mae'n gofalu amdano'n mynychu sesiwn synhwyrdd Touch Trust.

Am fwy o wybodaeth ewch i

<http://www.dewis.cymru/ResourceDirectory/ViewResource.aspx?id=15858> neu cysylltwch â:

Project Gofalwyr Cysylltiedig ar gyfer ymholiadau cyffredinol

Ffôn: **01446 741 706**,  
e-bost: [connectedcarers@gvs.wales](mailto:connectedcarers@gvs.wales)

Ffederasiwn Rhieni Caerdydd a'r Fro ar gyfer cyfarfodydd cymdeithasol

Ffôn: **02920 565 917**,  
e-bost: [admin@parentsfed.org](mailto:admin@parentsfed.org)

Sesiynau Amser i Mi Touch Trust

Ffôn: **02920 635 660**,  
e-bost: [Alison.johnston@touchtrust.co.uk](mailto:Alison.johnston@touchtrust.co.uk)



## Project Gwella Mynediad – Cynnwys Cymunedau Amrywiol mewn Gofal Diwedd Oes

Ym mis Ionawr 2016, lansiodd Marie Curie y Project 'Cynnwys Cymunedau Amrywiol mewn Gofal Diwedd Oes' a ariennir gan y Loteri Fawr. Mae'r project wedi archwilio anghenion tri grŵp o bobl a'u gofalwyr sy'n byw gydag afiechyd marwol yng Nghaerdydd a'r Fro. Nodwyd y grwpiau yn seiliedig ar ymchwil bresennol o gwmpas bylchau a heriau o ran darpariaeth gofal lliniarol, a thrwy ymgynghoriadau ar draws Caerdydd a'r Fro.

Dyma'r grwpiau:

- ❖ Pobl sydd â dementia
- ❖ Pobl sydd ag anableddau dysgu
- ❖ Pobl sydd â chredoau crefyddol neu heb greddoau crefyddol

Mae'r grwpiau hyn, yn aml gydag ystod eang o anghenion, yn wynebu llawer o heriau a rhwystrau i gael mynediad at wasanaethau gofal iechyd, gan gynnwys gofal lliniarol a diwedd oes. Ar ôl hyn, nododd y project rywfaint o rwystrau a oedd yn gyson ar draws pob un o'r tri grŵp a rhai sy'n benodol i bob grŵp unigol.

Ar draws pob un o'r tri grŵp, yn aml roedd dealltwriaeth gyfyngedig o ofal lliniarol a phwy oedd yn gallu cael mynediad at ein gwasanaethau. At hynny, roedd camsyniadau am farw cynorthwyedig hefyd yn ffactor a effeithiodd ac a rwystrodd fynediad at ofal. Roedd y diffyg gwybodaeth a dealltwriaeth hwn am ein gwasanaethau a gofal lliniarol hefyd yn amlwg o fewn gweithwyr proffesiynol ym maes gofal cymdeithasol.

Gwelodd y project, er ei fod yn un o'r achosion marwolaeth mwyaf cyffredin yn y DU, na chydabyddir dementia bob amser fel cyflwr terfynol. Mae'r diffyg llwybr ffurfiol ac argaeledd cyfyngedig o ran gwasanaethau gofal lliniarol yn sicrhau ei fod yn anos i bobl sydd â dementia a'r gofalwyr i gael mynediad at wasanaethau.

Wrth asesu anghenion pobl sydd ag anawsterau dysgu, gwelodd y project efallai y bydd gofalwyr a phobl broffesiynol yn ceisio 'amddiffyn' person maent yn gofalu amdano rhag siarad am farwolaeth. Bu hefyd achosion o bobl broffesiynol nad ydynt yn

ymwneud ag iechyd, er enghraifft gofalwyr heb gael gwrandawriad gan ddarparwyr gwasanaeth statudol. At hyn, dylai Marie Curie a'i bartneriaid statudol ystyried realiti risg wedi'i chynyddu o bobl sydd ag anawsterau dysgu, yn enwedig y rhai sydd â syndrom Down, o ddatblygu dementia.

Gwelsom hefyd fod pobl o gefndiroedd crefyddol gwahanol yn aml yn mynegi pryderon am allu staff gofal lliniaru i fodloni eu hanghenion ysbrydol a diwylliannol. Roedd mynediad at wybodaeth ar wasanaethau a materion iaith a chyfathrebu Marie Curie hefyd yn feysydd lle y gellir cyflawni gwelliannau. Gydag amcangyfrifon o bobl yn y DU yn nodi nad ydynt yn grefyddol o tua 50%, gwelodd y project fod diffyg cefnogaeth fugeiliol ar gyfer y grŵp hwn yn bryder.

Ar gyfer Marie Curie, mae'r project wedi gwella'n dealltwriaeth o'r rhwystrau a wynebir wrth gael mynediad at wasanaethau gofal lliniarol ar gyfer pobl sydd â dementia, anableddau dysgu a phobl sydd â chredoau crefyddol gwahanol neu heb greddoau crefyddol. Rydym wedi cael mwy o wybodaeth, profiad a hyder yn gweithio'n uniongyrchol gyda'r grwpiau hyn a byddwn yn sicrhau y caiff eu lleisiau a'u hadborth eu hystyried wrth i ni gynllunio, datblygu a gwella cynwysoldeb a mynediad at ein gwasanaethau. Yr her i Marie Curie a darparwyr gwasanaeth eraill, o fewn gofal lliniarol a'r sector iechyd a gofal ehangach, yw sicrhau y gellir cynnal a datblygu ymhellach y gwaith, y darganfyddiadau a'r argymhellion o'r project hwn wrth gefnogi mynediad teg i wasanaethau gofal lliniarol i'r holl bobl.

### **Michael Banner, Rheolwr Project**

Ar gyfer pob fersiwn o adroddiadau'r Project, gwaith ehangach Hosbis Caerdydd a'r Fro a ffynonellau gwybodaeth Marie Curie eraill, defnyddiwch y dolenni isod neu ffoniwch **0800 090 2309**: [www.mariecurie.org.uk/help/hospice-care/cardiff](http://www.mariecurie.org.uk/help/hospice-care/cardiff); [www.mariecurie.org.uk/media/press-releases/project-key-to-addressing-access-to-end-of-life-care-for-marginalised-groups/211377](http://www.mariecurie.org.uk/media/press-releases/project-key-to-addressing-access-to-end-of-life-care-for-marginalised-groups/211377); <https://www.mariecurie.org.uk/help/support>



# Pigiad tymhorol yn erbyn y Ffliw a Phigiad yn erbyn yr Eryr



Fel gofalwr, mae'n bosibl eich bod wedi gweld bod cael eich imiwneiddiad yn erbyn y ffliw ychydig yn anodd i chi eleni. Roedd nifer o resymau dros hyn. Am y tro cyntaf, cynigiwyd imiwneiddiad i'r rhai dros 65 oed oedd yn wahanol i'r un a gynigiwyd i gleifion â chyflyrau cronig o dan 65 oed. Roedd oedi o ran dosbarthu'r brechlyn newydd hwn ac ni chafodd rhywfaint o stoc ei ddosbarthu tan ganol mis Tachwedd 2018. Rydym yn mawr obeithio eich bod wedi llwyddo i gael eich brechlyn.

Er eich bod o bosibl wedi ei dderbyn yn hwyrach nag yr ydym yn awgrymu fel arfer, byddwch chi wedi ei dderbyn mewn pryd ar gyfer brig tymor y ffliw, sydd fel arfer ychydig ar ôl y Nadolig. Rydym eisoes yn gweithio i sicrhau na fydd y sefyllfa hon yn codi y flwyddyn nesaf. Cofiwch ei fod nid yn unig yn bwysig i'r person rydych chi'n gofalu amdano gael ei imiwneiddio ond mae yr un mor bwysig i chi, fel gofalwr i gael eich imiwneiddio yn erbyn y ffliw.

Os nad ydych wedi cael cyfle i gael eich brechu, mae amser o hyd i gael eich amddiffyn. Os na all eich Meddyg Teulu gynnig brechlyn i chi, gofynnwch yn eich fferyllfa leol oherwydd bod llawer ohonynt yn cymryd rhan yng nghynllun y GIG yng Nghymru.

Cofiwch, os ydych yn sâl gydag annwyd neu'r ffliw, dylech chi orffwys yn ddigonol, cadw'n gynnes a chadw eich hun wedi'ch hydradu trwy yfed llawer o hylifau. Ni fydd eich Meddyg Teulu yn gallu rhagnodi gwrthfotigau ar gyfer anwydau neu'r ffliw oherwydd ni fyddant yn gweithio.

Os oes gennych symptomau fel rhai'r ffliw neu os buoch mewn cysylltiad â rhywun sydd â'r ffliw, helpwch ni i atal y firws rhag lledaenu trwy beidio ag ymweld

â'n hysbytai hyd nes i chi fod heb symptomau ers o leiaf 48 awr.

## Newyddion

Am y tro cyntaf eleni, bydd yr holl staff sy'n gofalu am breswylwyr mewn Cartrefi Nyrsio yn cael cynnig imiwneiddiad am ddim yn erbyn y ffliw mewn Fferyllfeydd cymunedol.

O fis Ebrill 2009, caiff imiwneiddiad yn erbyn yr eryr ei gynnig i bawb sydd rhwng 70 ac 80 oed, tan hynny dim ond y rhai sy'n 76 oed a gaiff eu heithrio. Rydych yn parhau'n gymwys hyd nes i chi gyrraedd 80 oed. Yn debyg i lawer o gyflyrau iechyd eraill, mae'r eryr yn fwy cyffredin ac yn fwy difrifol wrth i chi heneiddio.

Mae llawer o fythau ynglŷn sut rydym yn datblygu'r eryr. Nid ydym yn dal yr eryr, gall unrhyw un sydd erioed wedi cael brech yr ieir ddatblygu yr eryr ac ni allwch ddal yr eryr o rywun sydd â brech yr ieir. Yn wir, gall bod mewn cysylltiad â brech yr ieir hybu eich imiwneiddio a lleihau'r risg o ddatblygu'r eryr.

Er y bydd rhai ond yn datblygu haint ysgafn, mae'n bosibl y bydd yn peri i chi ddiodef o boen difrifol a all bara am fisoedd neu

mewn rhai achosion, am flynyddoedd. Trwy gael eich imiwneiddio, byddwch yn lleihau'r risg o ddatblygu'r eryr.

Mae'n ymddangos bod llawer o bobl heb gael mynediad at y brechlyn hwn eto; os ydych yn gymwys i'w dderbyn ac mae unrhyw gwestiynau gennych, cysylltwch â'ch nyrs practis a fydd yn hapus eu hateb nhw i chi.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i

<https://www.nhsdirect.wales.nhs.uk/default.aspx?locale=cy> a <http://www.cardiffandvaleuhb.wales.nhs.uk/page/78587>

## Shingles vaccination for those aged 70 to 79



# Dan sylw: Teuluoedd a Anghofiwyd

Yasha Richards-Williams yw fy enw i ac rwy'n gweithio i Gyngor Bro Morgannwg fel Gweithiwr Cymdeithasol Blaen Arbenigol ar Gamddefnyddio Sylweddau, yn 'Newlands' yn y Barri.

Un nos Fercher ym mis Tachwedd 2018, es i i 'Teuluoedd a Anghofiwyd'. Mae hwn yn grŵp cymorth cyfoedion sy'n agored i unrhyw un yr effeithiwyd arno gan gamddefnydd alcohol a/neu gyffuriau rhywun arall.

I ffwrdd o'r noson oer a llaith ym mis Tachwedd, des i o hyd i saith o bobl yn eistedd gyda'i gilydd (yn yfed te a digonedd o fisgedi a donyts) mewn ystafell olau a chynnes yng Nghanolfan Gymunedol Castlelands (Y Barri). Cynhelir y grŵp rhwng 5 a 7pm bob nos Fercher. Arhosais am y ddwy awr gyfan a gallwn fod wedi aros yn hwy.

Gofynnais nifer o gwestiynau i'r grŵp am eu 'rolau amrywiol' fel perthnasau/gofalwyr;

## Dywedwch wrthym amdanoch eich hunain?

Roedd y blynyddoedd ym amrywio o 5 i 30 o flynyddoedd, nid oedd neb yn berffaith sicr.

*"...maen nhw'n tyfu i fyny a 'dych chi'n gwneud beth sydd ei angen...mae'n raddol... dw i ddim yn credu i mi weld dechreuad pendant neu'n gweld diwedd iddi..."*

*"Dydyn ni ddim yn ofalwyr fel gofalwyr traddodiadol. Ydyn ni'n ofalwyr o gwbl? Ddim fel gofalwyr arferol sy'n gwneud cymaint o oriau i helpu pobl anabl neu bobl hŷn."*

*"Dw i ddim yn meddwl fy mod i (yn ofalwr)... cafodd ei orfodi arna' i a dydy e ddim yn rheolaidd fel gyda gofalwyr... weithiau bydd pethau'n dda a does dim fy angen i, ac weithiau dydy e ddim a dw i'n gwneud llawer."*

*"Dw i'n cyflenwi ar gyfer beth nad yw yno.... does dim llawer o help felly os na fyddwn i'n ei wneud, pwy fyddai'n ei wneud?"*

## Pa fath o broblemau mae'n rhaid i chi ymdopi â nhw?

*"Bydd yr heddlu yn fy ffonio pryd bynnag mae e mewn trwbwl...maen nhw bob amser yn meddwl fy mod i'n rhan ohono."*

*"Pan fydd yn feddw, mae'n yfwr treisgar a chas ac mae'n mynd i drafferthion a dw i'n cael fy hun yn ei chanol gydag e."*

*"Roedd yn arfer dod i'r tŷ yn feddw, yn gweiddi ac yn torri fy ffenestri."*

*"Allwch chi ddim dianc achos ei fod yn eich cartref eich hun...mae'n codi embaras arna' i...mae'r holl gymdogion yn gwybod..."*

*"...roedd bywyd wedi mynd yn aneglur, yn ddigwyddiadau a thrawma..."*

*"Mae'r heddlu a phobl eraill yn feirniadol.... Maen nhw'n teimlo y dylech chi ddatrys y broblem neu eich bod chi'n rhan o'r broblem."*

*"...arhoson nhw (gwasanaethau lechyd) nes ei fod yn ystyried lladd ei hun cyn ymyrryd...mae'n rhaid i bethau fod yn wael iawn ac wedyn mae pobl yn helpu."*

*"doedd yr ysbyty ddim eisiau ei gymryd e.... gwnaethon nhw ein rhoi ar gefn y ciw..."*

*"rydych yn teimlo eich bod chi wedi cael eich gadael i'w ddatrys a phan na allwch chi wneud hynny, 'dych chi'n teimlo'n euog..."*

## Beth yw'r anawsterau ymarferol byddwch yn dod ar eu traws?

*"Roeddwn i'n talu arian i'w gadw allan o'r carchar ac yn eironig cafodd ei ddal mewn ysgubiad gan yr heddlu ac erbyn hyn mae yn y carchar beth bynnag."*

*"...gemwaith, arian...aethon nhw i gyd ar goll..."*

*"Mae fy mhartner yn galw 'yr hoff deuluoedd' (nid y teuluoedd a anghofiwyd) achos ein bod yn treulio cymaint o amser yn canolbwyntio ar y 'plentyn problematig', mae'n ymddangos fel yr hoff un ac mae pawb arall yn y cysgod."*

*"yn y diwedd rydych chi'n rhoi'r holl sylw iddo fe..."*

*"...ro'n i'n teimlo bod rhaid i mi amddiffyn fy ngŵr rhag beth oedd wedi bod yn mynd ymlaen (gyda'i mab). Triais i ymdopi ar fy mhen fy hun...doeddwn i ddim eisiau i'w iechyd (ei gŵr) ddiodef.."*

*"Dw i ddim hyd yn oed yn gallu gwyllo'r"*



*teledu heb fod fy mab yn peri i mi deimlo'n wael... mae'n anodd dianc."*

*"Dw i'n teimlo'n euog yn cael diod a dw i ddim hyd yn oed yn yfed yn drwm...bydd pobl yn fy ngweld yn yfed ac yn gofyn pam rwy'n yfed??"*

### **Pe tasech yn Brif Weinidog am ddiwrnod, pa bolisiau/newidiadau fydddech chi'n eu creu?**

*"Byddwn yn sicrhau bod gan deuluoedd fel ein teulu ni ddigon o arian i ymdopi â hyn i gyd."*

*"Gwneud pethau'n symlach a helpu cyn bod pethau'n mynd i'w gwaethaf isel ac mae pawb yn methu ymdopi..."*

*"Efallai edrych ar sut mae pobl yn cael eu harian (budd-daliadau) fel nad ydyn nhw'n ei gael e mewn un swm ac yn ei gorwneud hi ar gyffuriau neu alcohol, ac wedyn bod heb arian am bythefnos."*

*"Mynnu bod yr adran iechyd meddwl yn helpu heb dim ond rhoi'r bai ar y cyffuriau...maen nhw'n gwrthod helpu fy mab ac mae'n sâl iawn..."*

*"Efallai lleoedd cymdeithasol, nid y dafarn, lle all pobl fynd, i fod gyda'i gilydd heb yfed..."*

### **Pa newidiadau (os unrhyw beth) sydd angen eu gwneud yn y gymdeithas er mwyn gwneud eich bywydau'n haws?**

*"Stigma....stopio beio pobl am ymddygiad 'adictiaid'..."*

*"Rydyn ni... dw i'n cael fy ngwneud yn gyfrifol am beth mae fy mrawd yn ei wneud..."*

*"Llai o feirniadaeth gan bobl broffesiynol hefyd."*

*"Mae angen i'r cyhoedd a phobl broffesiynol gael eu haddysgu'n fwy am gaethineb a sut i weld problem yn tyfu cyn ei bod yn mynd yn rhy fawr... Sylwais i ddim am 5 mlynedd efallai..."*

*"Mae angen i wasanaethau ymuno â'i gilydd... efallai un gweithiwr. Rhywun mae fy mab yn ymddiried ynddo i fynd trwy'r broses gydag e..."*

### **Ar gyfer y gofalwyr hynny sy'n nerfus am geisio cymorth, beth fydddech chi'n ei ddweud iddyn nhw?**

*"Ces i wybod ar ddamwain (am y grŵp)... y llynedd pan roeddwn i ar fy isaf.. Ro'n i'm chwilio am help ar gyfer fy mab a chynigiodd rhywun fy helpu! Beth bynnag, cafodd fy rhif ei basio i Lisa (syllfaenydd y grŵp) a ffoniodd hi fi y diwrnod wedyn...am yr ychydig wythnosau cyntaf roedd yn ofnadwy... Ro'n i jyst yn crio ond roedd yn wych achos fy mod i'n teimlo'n ymlaciedig yma...yn anaml bydd wythnos pan na fydda' i'n cerdded allan o'r grŵp yn teimlo'n obeithiol.!"*

*"Roedd yn cymryd ymdrech i ddod yma ond mae angen i mi siarad â phobl sy'n deall yr un sefyllfaoedd ac maen nhw jyst yn deall."*

*"Hefyd dysgais i (o gael cefnogaeth) nad oeddwn i ar fai am ffordd byw fy mab..."*

Llawer iawn o ddiolch i'r rhai a gymerodd ran wrth ysgrifennu'r erthygl hon.

I gael gwybod rhagor am 'Teuluoedd a Anghofiwyd', cysylltwch â Lisa Prowse; **07767 736718** neu ewch i [www.dewis.cymru/ResourceDirectory/ViewResource.aspx?id=1752](http://www.dewis.cymru/ResourceDirectory/ViewResource.aspx?id=1752)

Os mae 'gofalwr'/perthynas ydych chi a hoffech chi gael rhywfaint o hyfforddiant/gwybodaeth am unrhyw agwedd ar gamddefnyddio alcohol a/neu defnyddio cyffuriau'n anghyfreithlon, cysylltwch â mi (Yasha) yn Nhîm Cyffuriau ac Alcohol Newlands ar **01446 700943** neu ewch i [www.dewis.cymru/ResourceDirectory/ViewResource.aspx?id=1958](http://www.dewis.cymru/ResourceDirectory/ViewResource.aspx?id=1958).

## **Tracio'r Ddeddf – Arolwg Gofalwyr**

Mae Gyrfaoedd Cymru wedi lansio ein harolwg gyrfaoedd Tracio'r Ddeddf, sy'n ceisio casglu gwybodaeth o fis Ebrill 2018 tan fis Mawrth 2019. Mae'r arolwg yn casglu gwybodaeth am brofiadau bob dydd eu hawliau a'r cymorth sydd ar gael trwy Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru.

Byddem yn ddiolchgar pe gallai cynifer o ofalwyr â phosibl gwblhau arolwg eleni trwy'r ddolen hon.

<https://www.surveymonkey.co.uk/r/DilynyDdeddf1819>

## Gwasanaeth Casglu Cymhorthion Cerdded Ffisiotherapi



Gofynnir i drigolion Caerdydd a Bro Morgannwg ddychwelyd cymhorthion cerdded nad ydynt yn eu defnyddio mwyach.

Nod y fenter hon gan Fwrdd Iechyd y Brifysgol yw nid yn unig i leihau gwastraff, ond i arbed miloedd o bunnoedd o arian gofal iechyd hefyd.

Ar ôl anaf neu lawdriniaeth, yn aml rhoddir cymorth cerdded i bobl, megis ffrâm neu bâr o ffyn baglau, ar fenthyg er mwyn eu cael i symud eto.

Ond beth fydd yn digwydd iddynt pan na fydd eu hangen mwyach? Gadewir llawer ohonynt mewn garejys ac atigau i gasglu llwch. Pe bai offer nad oes ei angen yn cael ei ddychwelyd, gallai gael ei ailwampio a'i ailddosbarthu i rywun arall, gan arbed arian yn ogystal â lleihau gwastraff.

Ar hyn o bryd bydd y BIP yn dosbarthu dros 10,000 o gymhorthion cerdded y flwyddyn, O'r rhain, dim ond un o bob tri gaiff ei ddychwelyd, a chaiff un o bob pedwar ei ailwampio a'i ailddosbarthu i rywun arall, sy'n arbed bron £20,000 y flwyddyn i'r Bwrdd Iechyd.

Dywedodd Sue Rees, Dirprwy Bennaeth y Gwasanaethau Ffisiotherapi ar gyfer BIP, "Rydym yn gofyn i bobl ddychwelyd unrhyw fframiau cerdded, ffyn baglau a chymhorthion cerdded tair neu bedair olwyn a fenthyciwyd o'r ysbyty neu o wasanaeth cymunedol.

"Trwy weithio gyda'n gilydd gyda'r cyhoedd gallwn ailwampio mwy o offer i'w aildefnyddio,

a helpu i leihau gwastraff ac arbed arian.

"Mae'r arian rydym yn ei arbed gan ailwampio offer ac ailgylchu yn mynd yn syth yn ôl i mewn i ofal cleifion, sy'n ein helpu i ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl.

"Pe bai pawb yn rhannu'r neges hon gyda'i ffrindiau a'i deulu gallem gyd-dynnu a gwneud gwahaniaeth go iawn."

A wnewch chi ddychwelyd unrhyw gymhorthion cerdded sydd mewn cyflwr da ac sydd wedi cael eu benthyca i chi, pan na fydd eu hangen arnoch bellach, i un o'r lleoliadau canlynol.

### Ysbyty Athrofaol Cymru

- Prif fynedfa - Cyntedd
- Adran Ffisiotherapi/ Clinig Toresgyrn neu Uned Brys

### Ysbyty Athrofaol Llandochoau

- Derbynfa CAVOC/ Adran Ffisiotherapi

### Ysbyty Y Barri

- Prif Dderbynfa

Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch chi, cysylltwch â Rob Skellet ar **02920 746933** neu Jade Coleman ar **02920 742643**.

Ar gyfer casglu mwy nag un cymhorthion meddygol, cysylltwch â: Bro Morgannwg, De a Gorllewin Caerdydd **02920 712555** Gogledd a Dwyrain Caerdydd **02920 873672 / 6**

Os byddwch yn dymuno dychwelyd cadair olwyn ffoniwch y Gwasanaeth Cyfarpar ac Aelodau Artiffisial ar **02920 313905**.

## Gwasanaethau i ofalwyr

Bydd Eglwys y Groes Sanctaidd yn y Bont-faen yn cynnal gwasanaethau ar ail ddydd lau bob mis i unrhyw un sydd mewn rôl gofalwr di-dâl (oedolion). Bydd y gwasanaeth yn para am tua hanner awr; mae croeso i bawb ddod yn ogystal ag aros wedyn i gael sgwrs dros baned a darn o deisen. Bydd y gwasanaeth nesaf ddydd lau 14 Chwefror 2019 am 2.00pm yn Ystlys Lanquian y Groes Sanctaidd. I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'r Perchennog Victoria Ashley [vicar@cowbridgeparish.com](mailto:vicar@cowbridgeparish.com) **01446 775381** neu â Gweinyddwr y Plwyf ar [office@cowbridgeparish.com](mailto:office@cowbridgeparish.com) **01446 772302**



# Angen Gofalwyr – Ymunwch â'n Panel Gofalwyr Arbenigol!



Diben y panel yw sicrhau bod lleisiau gofalwyr yn cael eu clywed a bod gofalwyr yn gallu dylanwadu ar, newid a ffurfio'r gwasanaethau sy'n effeithio arnynt.

Bydd y panel arbenigol yn cynnwys gofalwyr o ledled Caerdydd a'r Fro gydag amrywiaeth o brofiadau gofalu. Gofynnir iddynt roi cyngor i:

- ❖ Ni – Ymddiriedolaeth Gofalwyr de-ddwyrain Cymru
- ❖ Yr Awdurdod Lleol
- ❖ Sefydliadau trydydd sector eraill
- ❖ Sefydliadau'r sector preifat

Gallai hyn gynnwys darparu barn ac adborth ar faterion megis:

- ❖ Deddfwriaeth, polisiâu a gweithdrefnau newydd
- ❖ Gwasanaethau neu gyfleoedd arbennig mae eu hangen ar ofalwyr
- ❖ Sut byddai gofalwyr yn hoffi cael eu cefnogi

Gwrandewir ar farn y panel a chaiff ei chynrychioli, ei gwerthfawrogi a'i dwyn ymlaen gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr de-ddwyrain Cymru er mwyn helpu gwasanaethau ar

gyfer pob gofalwr ar draws Caerdydd a'r Fro, yn ogystal â dylanwadu ar newid yn genedlaethol.

Cafodd dyddiadau a lleoliadau'r panel gofalwyr newydd eu cadarnhau fel:

## Dydd Iau 31 Ionawr

6:30pm – 8:30pm  
(gan gynnwys cinio ysgafn o 6pm)  
YMCA y Barri, Court Rd, Y Barri,  
Bro Morgannwg, CF63 4EE

## Dydd Iau 28 Chwefror

1:00pm – 3:00pm  
(bydd cinio prynhawn ysgafn ar gael o 12pm)  
Pedal Power, Parc Carafanau Pontcanna,  
Oddi ar Dogo Street, Caerdydd, CF11 9JJ

## Dydd Iau 28 Mawrth

10:00am – 12:00pm  
(wedi'i ddilyn gan ginio prynhawn ysgafn)  
YMCA y Barri, Court Rd, Y Barri,  
Bro Morgannwg, CF63 4EE

I gael gwybod rhagor, cysylltwch â Siân ar **01495 769 996** neu e-bostiwch [engagement@ctsew.org.uk](mailto:engagement@ctsew.org.uk)

**Mae Amser Gofalu yn falch o gynnwys gofalwr sydd wedi rhoi caniatâd i ni ddefnyddio cerdd emosiynol y mae wedi'i hysgrifennu am ei sefyllfa gofalu. Mae Hannah Anning yn rhannu ei syniadau am ofalu am eu gŵr sydd â dementia.**

### DEMENTIA

When days are dark and nights are long  
I try very hard to be strong  
My lovely husband's gone from me  
I never thought that I would see  
Carers for David instead of me.  
Happy and contented we both were  
Please somebody invent a cure.  
Dementia is a curse from Hell  
For a cure, my soul I'd sell.  
Too many wards are full of pain  
People suffering with their brain.  
Loved ones crying, full of fear  
What is Dementia? It's not clear.

I've spoken from my heart and soul  
My husband's illness takes its toll  
I must visit everyday  
Just to see that he's okay  
An empty house, an empty bed  
I often wish that I were dead.  
But then I know, he needs my love  
So I just pray to God above  
That somewhere, somehow there's a cure  
With that thought, I can endure.

**H E Anning**



## Tîm Profiad Cleifion yn lansio pecynnau dros nos i ofalwyr ar gyfer Diwrnod Hawliau Gofalwyr

Fel rhan o Ddiwrnod Hawliau Gofalwyr, mae Tîm Profiad Cleifion Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn lansio pecynnau dros nos i ofalwyr. Mae'r pecynnau cyfleus hyn o bethau hanfodol ar gyfer ofalwyr a fydd, yn annisgwyl, yn cael eu hunain yn gorfod aros yn yr ysbyty dros nos gyda'r person maent yn gofalu amdano.

Mae'r pecynnau'n cynnwys sebonach maint teithio er mwyn i ofalwyr allu ymolchi ychydig ar ôl noson annisgwyl yn yr ysbyty.

Yn y pecynnau mae taleb gostyngiad ar gyfer ffreutur y staff yn Ysbyty Athrofaol Llandochoau ac yn Ysbyty Athrofaol Cymru. Cafodd y gostyngiad hwn ei gytuno gyda'r Rheolwr Gwasanaethau Masnachol fel ffordd o annog gofalwyr i gymryd hoe pan fyddant yn yr ysbyty i ofalu am eu lles eu hunain.

Caiff y pecynnau eu cyflwyno'n raddol ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i gyd dros yr wythnosau i ddod. Gall staff wardiau Ysbyty Athrofaol Cymru ac Ysbyty Athrofaol Llandochoau ofyn am y pecynnau gan y Tîm Profiad Cleifion, Tîm y

Caplandy ac yn ystod y cyfnod allan o oriau, o Ymarferwyr y Safle. Rhoddir cyflenwad bach o becynnau i'r wardiau yn Ysbyty'r Barri ac Ysbyty Dewi Sant i'w cadw a gellir gwneud cais am ragor trwy'r Tîm Profiad Cleifion.

Dywedodd Angela Hughes, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Profiad Cleifion:

*"Mae gofalwyr yn darparu cymorth amhrisiadwy i'r bobl maent yn gofalu amdanynt. Mae Diwrnod Hawliau Gofalwyr eleni ynglŷn â helpu gofalwyr i ofalu am eu dyfodol, trwy ddarparu gwybodaeth a chymorth fel y gallant gynnal eu hiechyd a'u lles eu hunain. Mae'r pecynnau yn rhywbeth bach gennym ni i ddangos i ofalwyr ein bod ni yno i'n cefnogi mewn unrhyw ffordd y gallwn."*

Os oes gennych rôl gofalu ac mae angen rhagor o wybodaeth a chymorth arnoch, cysylltwch a'r tîm Profiad Cleifion ar **02920 745692**, ewch i'r wefan [www.cardiffandvaleuhb.wales.nhs.uk/information-for-carers](http://www.cardiffandvaleuhb.wales.nhs.uk/information-for-carers) neu e-bostiwch [Suzanne.Becquer-Moreno@wales.nhs.uk](mailto:Suzanne.Becquer-Moreno@wales.nhs.uk)

## Woody's Lodge

Yma yn Woody's Lodge, rydym wedi gweld ei fod yn rhwydd i feteraniaid y Lluoedd Arfog a'r Gwasanaethau Brys a'u gofalwyr i syrthio drwy'r rhwyd a chael eu hynysu neu'n gweld eu bod yn rhoi'r gorau i gymdeithasu gyda ffrindiau cymaint ar ôl gorffen eu gwasanaeth. Fodd bynnag, rydym yn darparu lle i gyfarfod â'r diben o helpu feteraniaid i ailgysylltu â'u cyfoedion yn ogystal â gyda'u ffrindiau a'u teuluoedd eu hunain, gan rannu eu profiadau cyffredin ar draws pob oedran a chefnidir gwasanaeth. Rydym wedi gweld, wrth ddod o hyd i ffrindiau newydd neu ailgydio mewn hen gyfeillgarwch, gall unigedd ac unigrwydd fod yn rhywbeth o'r gorffennol, wrth i broblemau'r byd ymddangos yn llai llethol.

Mae Woody's Lodge yn hyb cymdeithasol ar



gyfer amrywiaeth eang o bobl sy'n gysylltiedig â feteraniaid, beth bynnag yw eu hoedran, eu profiad neu eu cefndir. O ddiwrnodau teuluol a gweithgareddau i'r teulu cyfan i grwpiau penodol i feteraniaid sy'n ferched neu gymorth i ofalwyr feteraniaid, boed yn bartneriaid neu'n blant; yma yn Woody's rydym wedi gweld, trwy ddod â phobl ynghyd, gallwn leihau unigedd a helpu feteraniaid i ddechrau ailadeiladu eu bywydau.

Ymunwch â ni yn Woody's Lodge i gael paned a bisgïen bob dydd lau 10am – 3pm

[www.woodyslodge.org/](http://www.woodyslodge.org/) neu ffoniwch **01446 781792**





**A Welsh version of Caring Times is available. Mae fersiwn Saesneg o Amser Gofalu ar gael.**

## Cowbridge GP Practice Achieves Silver Accreditation

For many carers, the first place they contact for help and support can be their local GP Practice. Usually GP Practices come in contact with carers a long time before Social Services. In every GP Practice there is a carer's register and in most a dedicated point of contact, a Carers' Champion.

Work has been ongoing with GP Practice Carers Champions in order to provide staff and patients with relevant and up-to-date information about caring and for carers. Cardiff and Vale University Health Board, City of Cardiff Council and the Vale of Glamorgan Council have developed a Carers GP Accreditation Scheme. The scheme has a set of criteria that GP Practices need to achieve to obtain recognition for their support to carers and their families.

